

Agenda – Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Lleoliad:	I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:
Fideogynadledda drwy Zoom	P Gareth Williams
Dyddiad: Dydd Llun, 16 Mehefin 2025	Clerc y Pwyllgor
Amser: 09.45	0300 200 6565
	SeneddDCC@senedd.cymru

O bell

Cyfarfod cyhoeddus

(09.45 – 10.05)

- 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau, dirprwyon a datganiadau o fuddiant
(09.45)
- 2 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3
- 3 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.7
(09.45 – 09.50)
- 3.1 SL(6)617 – Cod Ymarfer ar arfer swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol mewn perthynas â Rhan 4 (taliadau uniongyrchol a dewis o lety) a Rhan 5 (codi ffioedd ac asesiadau ariannol) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

(Tudalennau 1 – 7)

[Cod Ymarfer](#)



Senedd Cymru
Welsh Parliament

[Memorandwm Esboniadol](#)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-19-25 – Papur 1 – Adroddiad drafft [Cymraeg i ddilyn]

4 Offerynnau sy'n codi materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3 – trafodwyd eisoes (09.50 – 09.55)

4.1 SL(6)615 – Gorchymyn Senedd Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2025 (Tudalennau 8 – 31)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-19-25 – Papur 2 – Adroddiad drafft

LJC(6)-19-25 – Papur 3 – Ymateb Llywodraeth Cymru

LJC(6)-19-25 – Papur 4 – Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai, 12 Mehefin 2025

LJC(6)-19-25 – Papur 5 – Llythyr at yr Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai, 4 Mehefin 2025

5 Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol (09.55 – 10.00)

5.1 Hysbysiadau gan Lywodraeth Cymru: Cyfarfodydd y grwpiau rhyngweinidogol (Tudalennau 32 – 36)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-19-25 – Papur 6 – Llythyr gan y Prif Weinidog: Cyngor y Cenhedloedd a'r Rhanbarthau, 9 Mehefin 2025

LJC(6)-19-25 – Papur 7 – Datganiad Ysgrifenedig gan y Prif Weinidog: Cyngor y Cenhedloedd a'r Rhanbarthau, 9 Mehefin 2025

LJC(6)-19-25 – Papur 8 – Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio: Grŵp Rhyngweinidogol ar gysylltiadau rhwng y DU a'r UE, 9 Mehefin 2025

LJC(6)-19-25 – Papur 9 – Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros

Lywodraeth Leol a Thai: Grŵp Rhyngweinidogol ar Etholiadau a Chofrestru,
11 Mehefin 2025

**5.2 Datganiad Ysgrifenedig a gohebiaeth gan y Dirprwy Brif Weinidog ac
Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig: Rheoliadau
Marcio Nwyddau Manwerthu 2025**

(Tudalennau 37 – 40)

Dogfennau atodol:

LJC(6)–19–25 – Papur 10 – Llythyr gan y Dirprwy Brif Weinidog ac
Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, 9 Mehefin
2025

LJC(6)–19–25 – Papur 11 – Datganiad Ysgrifenedig gan y Dirprwy Brif
Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion
Gwledig, 9 Mehefin 2025

6 Papurau i'w nodi

(10.00 – 10.05)

**7 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y
cyhoedd o weddill y cyfarfod**

(10.05)

Cyfarfod preifat

(10.05 – 10.55)

8 Bil Gwasanaethau Bysiau (Cymru): Adroddiad drafft

(10.05 – 10.25)

(Tudalennau 41 – 81)

Dogfennau atodol:

LJC(6)–19–25 – Papur 12 – Adroddiad drafft [Saesneg yn unig]

**9 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm
Rhif 3) ar y Bil Hawliau Cyflogaeth: Adroddiad drafft**

(10.25 – 10.30)

(Tudalennau 82 – 98)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-19-25 – Papur 13 – Adroddiad drafft [Saesneg yn unig]

10 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2) ar y Bil Cynllunio a Seilwaith: Adroddiad drafft

(10.30 – 10.40)

(Tudalennau 99 – 107)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-19-25 – Papur 14 – Adroddiad drafft [Saesneg yn unig]

11 Adolygiad o weithredu Cytundeb Masnach a Chydweithredu y DU: Pennod adroddiad drafft

(10.40 – 10.50)

(I ddilyn)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-19-25 – Papur 15 – Pennod ddrafft

12 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 3) ar y Bil Awdurdodau Cyhoeddus (Twyll, Gwallau ac Adennill): Adroddiad drafft

(10.50 – 10.55)

(I ddilyn)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-19-25 – Papur 16 – Adroddiad drafft [Saesneg yn unig]

LJC(6)-19-25 – Papur 17 – Ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol a Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2) ar y Bil Awdurdodau Cyhoeddus (Twyll, Gwallau ac Adennill), Mehefin 2025

SL(6)617 – Code of Practice on the exercise of social services functions in relation to Part 4 (direct payments and choice of accommodation) and Part 5 (charging and financial assessment) of the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014

Background and Purpose

This Code of Practice ("the Code") is issued under section 145 of the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014 ("the Act"). Local authorities, when exercising their social services functions, must act in accordance with the requirements contained in the Code.

The Code has been revised to add a recently introduced financial recognition scheme to the list of forms of capital that should be fully disregarded in the financial assessment for charging for all forms of care and support.

The scheme was introduced in the Care and Support (Charging) and (Financial Assessment) (Wales) (Miscellaneous Amendments) Regulations 2025.

The financial recognition scheme to be added to the Code is the Lesbian, Gay, Bisexual and Transgender Financial Recognition Scheme.

Producing a revised Code also presents an opportunity to add reference to amending charging and financial assessment regulations that have come into effect since the previous revision. To this effect, the Care and Support (Charging) (Wales) (Amendment) Regulations 2024 and the Care and Support (Charging) and (Financial Assessment) (Wales) (Miscellaneous Amendments) Regulations 2025 have been referenced in the revised Code as appropriate. These revisions have been made to ensure clarity and completeness as the regulations amend principal regulations already referred to in the Code.

Procedure

Draft negative

A draft of the code must be laid before the Senedd. If, within 40 days (excluding any time when the Senedd is dissolved or is in recess for more than 4 days) of the draft being laid, the Senedd resolves not to approve the draft code then the Welsh Ministers must not issue the code.

If no such resolution is made, the Welsh Ministers must issue the code (in the form of the draft) and the code comes into force on a day specified in an order made by the Welsh Ministers.



Scrutiny under Standing Order 21.7

The following 30 points are identified for reporting under Standing Order 21.7 in respect of this code.

1. Section 146(1) of the Act states - "Before issuing or revising a code under section 145, the Welsh Ministers must consult such persons as they think fit on a draft of the code (or revised code)."

The following is noted at paragraphs 5.1 and 5.2 of the Explanatory Memorandum:

As the revised Code includes a single additional disregard which is already implemented by regulation, the revision to the Code does not reflect a change in Welsh Government policy and a formal public consultation has not been undertaken in this instance.

Revisions to the Code are merely technical adjustments to ensure the Code accurately reflects the appropriate amending regulations and identifies the additional financial recognition scheme identified above.

The Welsh Government is asked to explain how it considers that the decision not to undertake a consultation in relation to this revised Code is compliant with section 146(1) of the Act.

2. Defined terms are used inconsistently throughout the Code:
 - i. In paragraphs 1.8 and 1.9, the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014 is referred to by its full title. But it has already been defined as "the Act" which has been used in the other paragraphs.
 - ii. In paragraph 9.2, in the English text, "deferred payment agreement" is defined as "DPA". In Annex D, in the English text, there is a varying between using the defined term "DPA" and "deferred payment agreement".
 - iii. In places, "agreement" is used when it appears to be referring to a "DPA", such as in paragraphs 8.1, 9.1, 9.3 and 9.5 of Annex D. Further, "agreement" is used in the headings above paragraphs 10.1 and 11.1 of Annex D.
 - iv. In Annex D, in paragraph 2.1, in the English text, the abbreviation "DPAs" is used as a plural noun of the defined term "DPA". However, in the Code there is a varying in the English text between using "DPAs" as the plural noun or repeating the words in full.
 - v. In Annex D, in paragraph 2.1, the Care and Support (Deferred Payment) (Wales) Regulations 2015 is defined as "the Deferred Payment Regulations". In Annex F, in paragraph 5.1, in the English text,



it refers to "the Deferred Payment Regulations 2015". There is a difference between the English and Welsh text, as the Welsh text uses the defined term.

3. In paragraph 1.5, it states that a requirement is expressed as "**must**" or "**must not**" in bold in the Code, and guidance where the local authorities have discretion is expressed as "**may**" or "**should/should not**" in bold. In places, those words are used in relation to local authorities but are not formatted in bold, therefore, it is unclear whether this is deliberate and that the words are not intended to have the meaning noted in paragraph 1.5.

In other places, phrases such as "will need to" and "can" are used in relation to local authorities where it is unclear as to how they differ from "must" and "may". For example, in paragraph 4.1 – "In line with the requirements of the Act, the regulations and this Code, authorities need to decide..." and in paragraph 5.3 – "However, a local authority can assess the income or capital of a couple but only where...".

There are other examples which could potentially cause confusion; the use of "nor must" in paragraph 5.6, in the English text, with the "must" formatted in bold, – "...nor **must** authorities seek payment of a contribution or a reimbursement towards such costs..." and in Annex C, in paragraph 4.1, in the English text, where only the word "must" is formatted in bold as opposed to "must not" – "...a local authority **must** not set arbitrary amounts or ceilings for particular types of accommodation...".

4. There is a difference between the numbering of the English and Welsh text after paragraph 1.9. In the English text, the subsequent paragraphs under the heading "Advocacy" are incorrectly numbered as paragraphs 1.7 and 1.8 but in the Welsh text they are correctly numbered as paragraphs 1.10 and 1.11.
5. In paragraph 3.4, in the opening words before the bullet points, it refers to "the Act, the regulations and this Code...". However, the phrase "the regulations" has not been defined with a meaning. Therefore, it is unclear as to which regulations are being referred to. This occurs elsewhere in the Code, such as paragraphs 4.1 and 5.6. Further, paragraphs 2.1 and 3.6, refer to "this Code, and the regulations to which it refers..." which qualifies the meaning of "the regulations" in a different manner.
6. In paragraph 5.1, in the English text, the title of the SI is incorrect in the list of amending instruments where it refers to "the Care and Support (Charging) and (Financial Assessment) (Miscellaneous Amendments) (Wales) Regulations 2022". If it is referring to SI 2022/99 (W. 35), the correct title is "the Care and Support (Charging) and (Financial Assessment) (Wales) (Miscellaneous Amendments) Regulations 2022".
7. In paragraph 7.2, it notes "This requirement was introduced in 2011 by Ministers". However, it appears that it should refer to "the Welsh Ministers".



8. In paragraph 9.1, there is a difference between the English and Welsh text. In the English text, it refers to "Annexes A and B of this Code" but in the Welsh text the words "of this Code" are missing from the meaning of the reference.
9. In Annex A, in paragraph 2.28(g), there is a difference between the numbering of the English and Welsh text. In the English text, there is a paragraph "(xv)" but in the Welsh text the same provision is numbered as "(vx)".
10. In Annex A, in paragraph 2.28(g)(xxix), the new financial recognition scheme added to the Code is worded as follows:

Any payment made to A by the Ministry of Defence under the Lesbian, Gay, Bisexual and Transgender Financial Recognition Scheme

Although this wording appears in the Care and Support (Financial Assessment) (Wales) Regulations 2015, "A" is defined for the purposes of those regulations. Using "A" in the Code could cause confusion, because "A" is not defined in the Code.
11. In Annex A, in paragraph 2.33(g), there is a difference between the English and Welsh text. In the English text, it refers to "Any payment of arrears of contributions by a local authority..." but the meaning given by the Welsh text is "Any arrears of contributions held by a local authority...".
12. In Annex B, in paragraph 3.12(g) it reads "Grant made under a Housing Act which is to be used by the person to purchase a home or pay for repairs to make the home habitable.". The Welsh Government is asked to confirm whether it considers that "Housing Act" is sufficiently clear to identify the relevant legislation in order to establish whether a grant was made under a "Housing Act".
13. In Annex B, in paragraph 2.6(b), in the English text, it notes "any periodic sum" but in the Welsh text "periodic" has been expressed by using the phrase "o bryd i'w gilydd". It could be argued that "o bryd i'w gilydd" suggests "occasionally" or "from time to time" and that a word such as "cyfnodol" would be a more appropriate choice to express the meaning of "periodic" in Welsh.
14. In Annex B, in paragraph 2.6, there is a difference between the numbering of the English and Welsh text. In the English text, there is a paragraph (d) – "any holiday pay...", but in the Welsh text the same provision is numbered as "(b)".
15. In Annex B, in paragraph 2.20(e), there is a difference between the English and Welsh text. In the English text, there is a conjunction "and" at the end of that provision to show the relationship between sub-paragraphs (a) to (f) but there is no conjunction in the corresponding Welsh text.



16. In Annex C, in paragraph 2.1, in the second bullet point, there is a difference between the English and Welsh text. In the English text, it notes "cost the local authority more..." but the meaning given by the Welsh text is "cost the authority more".
17. In Annex C, in paragraph 6.1, there is a difference between the English and Welsh text. In the English text, it notes that a local authority must "set out in writing that it is unable to meet that choice and provide its reason(s) for this." But the meaning given by the Welsh text is that a local authority must "set out in writing that it is unable to meet that choice".
18. In Annex C, in paragraph 10.1, there is a difference between the English and Welsh text. In the English text, it notes that local authorities should also have a role in facilitating access "to financial information and advice...", but the meaning given by the Welsh text is "to information and advice...".
19. In Annex D, the heading of paragraph 2.1 reads "Who to offer deferred payments to" and paragraph 5.3 of the same Annex states "those eligible for a deferred payment...", the Welsh Government is asked to confirm whether they are referring to deferred payment agreements, and if the text should be amended to be clearer.
20. In Annex D, in the bullet points below paragraph 4.3(e), it states - "where a spouse or dependent relative (as defined in the Financial Assessment Regulations)..." and "...becomes a dependent relative (as defined in the Financial Assessment Regulations)". However, "dependent relative" is not defined in the Care and Support (Financial Assessment) (Wales) Regulations 2015, therefore it is unclear what "dependent relative" means.
21. In Annex D, in paragraph 5.5, in the final sentence, there is a difference between the English and Welsh text. In the English text, it notes "The local authority should advise..." but the meaning given by the Welsh text is that "The local authority should note...". Earlier in that paragraph the word "cynggori" rather than "nodi" has been used to express the meaning of "advise", so it means that the Welsh text is also inconsistent.
22. In Annex D, in paragraph 6.1(b), there is a difference between the English and Welsh text. In the English text, it notes "lessor amount" when it appears to mean a "lesser amount" which is the meaning given by the Welsh text.
23. In Annex D, in paragraph 7.3, there is a difference between the English and Welsh text. In the English text, it notes "this **must** be entirely at the decision of the person..." but there is no corresponding phrase to express the meaning of "entirely at" in the



Welsh text. It does lead to a slight difference in meaning and emphasis between both language texts.

24. In Annex D, in paragraph 10.4(c), there is a difference between the English and Welsh text. In the English text, it notes "and specify what notice should be given" but there is no phrase in the Welsh text to convey the meaning of "specify".
25. In Annex E, in paragraph 2.1, there is a difference between the English and Welsh text. In the English text, it refers to regulation 3 of "the Review Regulations" but the meaning given by the Welsh text is regulation 3 of "the Regulations".
26. In Annex E, in paragraph 2.25, there is a difference between the English and Welsh text. In the English text, it notes "Local authorities **must** designate appropriate officers of the authority..." but the meaning given by the Welsh text is "Local authorities **must** designate appropriate officers...".
27. In Annex F, in paragraph 1.3, there is a difference between the English and Welsh text. In the English text, it refers to "a person's deliberate non-payment" but the meaning given by the Welsh text is "a person's deliberate decision not to pay". Therefore, there is slight difference in meaning and emphasis between the language texts.
28. In Annex F, in paragraph 3.1, it states that, "if an invoice was issued giving 30 days to pay, the payment becomes due on day 30...". Does the Welsh Government consider that this drafting is sufficiently clear as to how the period of time is calculated in order to correctly identify "day 30"? In addition, in the Welsh text, the meaning of "issued" in those words has been expressed by using a word meaning "sent" which could lead to a difference in interpretation as to when the period of time begins.
29. In Annex F, in paragraph 9.2, in the English text, it states that "Where a local authority believes that derivation may have occurred...", it appears the word "derivation" should read "deprivation", as that is the meaning given by the Welsh text.
30. In Annex F, in paragraph 16.1, there is a difference between the English and Welsh text. In the English text, it notes "or prejudicing the interests of" where those words appear to refer to "someone who may wish to bring a claim against that person". However, the meaning given by the Welsh text is "or prejudicing the interests of that person". Therefore, the meaning of the Welsh text is "or prejudicing the interest of" the person who has transferred or sold their assets, rather than the "someone who may wish to bring a claim" against that person.



Government response

A Welsh Government response is required.

Legal Advisers

Legislation, Justice and Constitution Committee

11 June 2025



Senedd Cymru

Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Welsh Parliament

Tudalen y pecyn 7

Legislation, Justice and Constitution Committee

Eitem 4.1

SL(6)615 – Gorchymyn Senedd Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2025

Cefndir a diben

Mae Gorchymyn Senedd Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2025 ("y Gorchymyn Cynnal Etholiadau") yn darparu ar gyfer cynnal etholiadau. Mae'r Gorchymyn Cynnal Etholiadau yn darparu ar gyfer y ffordd y cynhelir etholiadau ac ymgyrchoedd etholiadol, ac ar gyfer heriau cyfreithiol i etholiad.

Mae'r Gorchymyn Cynnal Etholiadau yn ail-wneud, yn diweddarau ac yn cydgrynhoi'r darpariaethau presennol ar gynnal etholiadau o'r fath sydd yng Ngorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007 ("Gorchymyn 2007"), sydd wedi ei ddiwygio sawl gwaith o'r blaen. Mae'r Gorchymyn Cynnal Etholiadau hefyd yn gweithredu newidiadau deddfwriaethol sy'n ofynnol gan Ddeddf Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) 2024 ac mae'n adlewyrchu newidiadau a wnaed yn Neddf Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) 2024.

Nodir yn y Memorandwm Esboniadol i'r Gorchymyn Cynnal Etholiadau ei fod yn ddwyieithog am y tro cyntaf ac yn dilyn egwyddorion a nodir yn Neddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 sy'n ymwneud â defnyddio iaith fodern a chlr sy'n ddealladwy i'r darllenydd.

Gweithdrefn

Cadarnhaol drafft.

Mae Gweinidogion Cymru wedi gosod drafft o'r Gorchymyn gerbron y Senedd. Ni chaiff Gweinidogion Cymru wneud y Gorchymyn oni bai bod y Senedd yn cymeradwyo'r Gorchymyn drafft.

Materion technegol: craffu

Nodwyd y 36 pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol

Mae erthygl 6(5)(c) yn cyfeirio at "datganiad o wasanaeth" a "datganiad o gysylltiad lleol". Nid yw'r termau hyn wedi eu diffinio yn erthygl 2 o'r Gorchymyn, a phan fyddant yn cael eu defnyddio mewn manau eraill yn y Gorchymyn, fe'u defnyddir gan gyfeirio at ble y gellir dod o hyd i'w priod ystyron mewn deddfwriaeth arall. Gofynnir i Lywodraeth Cymru egluro pam na ddiffiniodd y termau hyn yn erthygl 2, neu ddarparu rhagor o wybodaeth yn erthygl 6(5)(c) i gynorthwyo'r darllenydd i ddeall y termau hyn.



2. Rheol Sefydlog 21.2(vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr y testun Cymraeg a'r testun Saesneg

Yn erthygl 16(6), mae gwahaniaeth rhwng y testun Cymraeg a'r testun Saesneg. Yn y testun Saesneg, mae'n nodi "Schedule 4 makes further provision..." ond mae'r testun Cymraeg yn dweud "Mae Atodlen 4 yn gwneud darpariaeth...". Mewn mannau eraill mynegwyd ystyr yr un ymadrodd yn gywir yn y testun Cymraeg mewn darpariaethau tebyg fel erthyglau 14(2) a (3), a 15(4), 43(4), 65(5) a 71(8).

3. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol

Mae erthyglau 26(3) a 119(1) yn cyfeirio at "craffu". Ni roddir unrhyw ystyr penodol i'r gair hwn yn y Gorchymyn ac felly nid yw'n glir i'r darllenydd beth yw craffu.

4. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol

Mae erthyglau 26(3) a 26(4) yn cyfeirio at "unrhyw gosb am bleidleisio". Ni roddir unrhyw ystyr penodol i'r term hwn yn y Gorchymyn ac felly nid yw'n glir i'r darllenydd at beth mae unrhyw gosb am bleidleisio yn cyfeirio.

5. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol

Yn erthygl 35(1)(d), cyfeirir at "adrannau 6A i 6D o Ddeddf 2000". Fodd bynnag, nid yw'r term "Deddf 2000" wedi ei ddiffinio yn y Gorchymyn. Mae'n ymddangos y dylai'r cyfeiriad fod at "Deddf Pleidiau Gwleidyddol 2000" a ddiffinnir yn erthygl 2(1) o'r Gorchymyn, os yw'r ddarpariaeth yn cyfeirio at adrannau 6A i 6D o Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000.

6. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol

Mae erthygl 47(9) yn croesgyfeirio at reol 70(1) o Atodlen 5 gyda'r cyfeiriad at "(dinistrio dogfennau)". Pennawd Rheol 70 yw "Cadw a dinistrio dogfennau a anfonwyd at y swyddog cofrestru perthnasol" ac mae rheol 70(1) yn ymdrin â chadw dogfennau yn unig, felly mae cyfeirio at "ddinistrio dogfennau" yng nghyd-destun rheol 70(1) yn anghywir, a gall fod yn ddryslyd i'r darllenydd.

7. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol

Mae erthygl 54(1) yn ei gwneud yn ofynnol i asiant etholiadol ddanfon "ffurflen wir" at y swyddog canlyniadau. Nid yw'r term hwn wedi ei ddiffinio yn y gorchymyn ac nid yw ffurf ffurflen wir yn glir gan nad oes ffurf wedi ei chynnwys at y diben hwn yn Atodlen 10 i'r Gorchymyn. Mae erthygl 54(8) yn rhoi'r pŵer i'r Comisiwn Etholiadol ragnodi ffurf ar gyfer ffurflen at y diben hwn, ond mae hynny'n bŵer yn ôl disgresiwn tra bod y gofyniad i ddanfon



ffurflen wir yn erthygl 54(1) yn orfodol. Gofynnir i Lywodraeth Cymru ddarparu rhagor o wybodaeth ynghylch ffurf "ffurflen wir" pe na bai'r Comisiwn Etholiadol yn arfer ei bŵer o dan erthygl 54(8).

8. Rheol Sefydlog 21.2(vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr y testun Cymraeg a'r testun Saesneg

Yn erthygl 56(3), mae gwahaniaeth rhwng y testun Cymraeg a'r testun Saesneg. Yn y testun Saesneg, mae'n nodi "the registered political party on whose party list the candidate was included" ond yr hyn a geir yn y testun Cymraeg yw'r "blaid wleidyddol gofrestredig y mae'r ymgeisydd wedi ei gynnwys ar ei rhestr". Yn hyn o beth, mae'n arwyddocaol oherwydd bod "rhestr plaid" yn derm a ddiffinnir gan erthygl 2(1) ar gyfer y Gorchymyn hwn. Yn ogystal, mae'n bosibl y bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn dymuno ystyried bod amrywiaeth drwy gydol testun Saesneg y Gorchymyn rhwng datgan "on whose party list" neu "on whose list" mewn ymadroddion tebyg, ac mae enghreifftiau'n cynnwys erthyglau 71(3) a 119(2)(b) sy'n defnyddio "on whose list" ac erthyglau 45(1) a 118(2) sy'n nodi "on whose party list".

9. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn yn ddifffgiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol

Mae erthygl 67(4) yn cyfeirio at anfon cyfathrebiadau gan ymgeiswyr, ac yn nodi bod anfon cyfathrebiadau o'r fath, yn rhannol, yn ddarostyngedig i'r amod yn erthygl 67(2). Fodd bynnag, mae erthygl 67(2) yn nodi y "caniateir" i gyfathrebiad etholiadol fod yn gyfathrebiad drwy'r post sy'n cynnwys mater sy'n ymwneud â'r etholiad yn unig ac sy'n pwyso llai na 60 gram. Ymddengys bod hyn yn ddarpariaeth ddewisol yn hytrach nag amod – pe bai'n amod, byddai disgwyl y byddai'r gair "rhaid" wedi cael ei ddefnyddio yn lle "caniateir". Gan hynny, gofynnir i Lywodraeth Cymru esbonio sut mae'r ddwy ddarpariaeth hyn yn rhyngweithio.

10. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol

Mae erthygl 71(4)(a) yn cyfeirio at ysgolion cymunedol, ysgolion sefydledig neu ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir. Nid yw'r termau hyn wedi eu diffinio yn y Gorchymyn. Mae deddfwriaeth arall yn diffinio'r termau hyn gan gyfeirio at Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (gweler, er enghraifft, adran 51(2) o Fil y Gymraeg ac Addysg (Cymru) a basiwyd yn ddiweddar). Gofynnir i Lywodraeth Cymru esbonio pam nad yw'r termau hyn wedi eu diffinio yn y Gorchymyn.

11. Rheol Sefydlog 21.2(viii) – ei fod yn defnyddio iaith ryw-benodol

Yn y testun Saesneg, mae erthygl 72(3) yn cyfeirio at "chairman". Gofynnir i Lywodraeth Cymru egluro pam na ddefnyddiwyd y gair "chair" neu "chairperson" yn yr achos hwn.

12. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol



Mae erthygl 73(1) yn nodi rhestr o bersonau sy'n cael eu cyfrif fel swyddogion na chânt weithredu ar ran ymgeiswyr. Mae is-baragraff (d) yn cyfeirio at "unrhyw bartner neu glerc i unrhyw berson o'r fath". Nid yw'n glir at beth mae'r gair "partner" yn cyfeirio yma, p'un a yw'n bartner busnes, partner personol, partner sifil neu rywbeth arall. Gofynnir i Lywodraeth Cymru egluro beth yw ystyr "partner" yn y cyd-destun hwn.

13. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol

Mae erthygl 93(4) yn nodi, o ran y dystiolaeth sy'n cael ei thrawsgrifio mewn treial deiseb etholiad ar gyfer etholiad i'r Senedd, "Rhaid i gopi o'r dystiolaeth fynd gyda'r dystysgrif a roddir gan y llys etholiadol i hysbysu'r Senedd". Nid yw'n glir at ba dystysgrif y cyfeirir yn y cyd-destun hwn – mae Rhan 4 o'r Gorchymyn yn cyfeirio at wahanol achosion lle gall fod angen tystysgrif. Mae'n bosibl bod hyn yn gysylltiedig â'r rhwymedigaeth ar y llys etholiadol i ardystio'n ysgrifenedig ei benderfyniad ynghylch y ddeiseb i Lywydd y Senedd o dan erthygl 101(3) ond nid yw hyn yn glir, felly gofynnir i Lywodraeth Cymru egluro'r sefyllfa.

14. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol

Mae erthygl 104(1) yn cyfeirio at ddeiseb etholiad ar gyfer etholiad i'r Senedd yn cael ei thynnu'n ôl gyda chaniatâd y llys etholiadol neu "Uchel Lys drwy gais arbennig". Nid oes rhagor o wybodaeth yn y Gorchymyn ynghylch beth yw "cais arbennig". Mae'n bosibl y dylai hyn gyfeirio at achos arbennig sy'n cael ei ddwyn o dan erthygl 103 o'r Gorchymyn, ond byddem yn croesawu eglurhad gan Lywodraeth Cymru ar y pwynt hwn.

15. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol

Mae paragraff 7(2) o Atodlen 1 i'r Gorchymyn yn rhestru personau sy'n gallu ardystio a llofnodi cais am bleidlais drwy ddirprwy ar sail amhariad difrifol ar y golwg neu anabledd arall. Diffinnir mwyafrif y proffesiynau a restrir yn is-baragraff (2) drwy gyfeirio at ddarpariaeth ddeddfwriaethol neu gofrestr benodol. Fodd bynnag, mae is-baragraff (2)(h) yn cyfeirio at "ymarferydd Gwyddor Gristnogol" heb unrhyw ddiffiniad pellach na chyfeirio at unrhyw gofrestr o ymarferwyr o'r fath. Gofynnir i Lywodraeth Cymru egluro:

- y sail dros gynnwys proffesiwn y mae'n ymddangos nad yw'n cael ei reoleiddio ar y rhestr hon, ac
- a yw cynnwys proffesiwn heb ei reoleiddio yn creu unrhyw risg mewn perthynas â'r system pleidleisio drwy ddirprwy.

16. Rheol Sefydlog 21.2(vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr y testun Cymraeg a'r testun Saesneg



Ym mharagraff 16(1)(a) o Atodlen 2, mae'r testun Saesneg yn cyfeirio at "application to remove a person from record of absent voters", tra bo'r Gymraeg yn dweud "cais i dynnu **enw** person o'r cofnod o bleidleiswyr absennol".

17. Rheol Sefydlog 21.2(vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr y testun Cymraeg a'r testun Saesneg

Ym mharagraff 18(2)(b) o Atodlen 2, mae'r testun Saesneg yn darparu bod yn rhaid i'r swyddog canlyniadau wneud y canlynol: "mark the postal ballot box with the words "blwch pleidleisio drwy'r post" or the words "postal ballot box" or both". Mae'r geiriau "neu'r ddau" ar goll o'r testun cyfatebol Cymraeg.

18. Rheol Sefydlog 21.2(vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr y testun Cymraeg a'r testun Saesneg

Ym mharagraff 23(9)(b) o Atodlen 2, mae'r testun Saesneg yn cyfeirio at unrhyw bapur pleidleisio arall "with the postal voting statement attached". Yn y testun Cymraeg cyfatebol dywedir "ac sydd â'r datganiad pleidlais drwy'r post ynghlwm wrthi". Sylwer ar ffurf fenywaidd yr arddodiad "wrthi". Gan fod "papur pleidleisio" yn enw gwrywaidd, nid yw'r testun Cymraeg yn gwneud synnwyr.

19. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol

Ym mharagraff 23(9)(b) o Atodlen 2, nid yw ystyr y ddarpariaeth yn glir oherwydd gwahaniaeth yn y gystrawen rhwng y testunau Cymraeg a Saesneg. Mae'r testun Saesneg yn awgrymu mai'r datganiad pleidleisio drwy'r post y mae'n rhaid ei farcio â'r geiriau "gwrthodwyd dros dro", "provisionally rejected" neu'r ddau, tra bod y testun Cymraeg yn darparu mai'r papur pleidleisio y mae'n rhaid ei farcio yn y modd hwnnw. Gofynnir i Lywodraeth Cymru egluro ystyr y ddarpariaeth.

20. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol

Mae paragraff 23(9)(c) o Atodlen 2 yn y testun Saesneg yn darparu, mewn amgylchiadau penodol, bod yn rhaid i'r swyddog canlyniadau roi yn y daliedydd ar gyfer pleidleisiau a wrthodwyd (y weithdrefn wirhau), unrhyw ddatganiad pleidleisio drwy'r post dilys wedi ei farcio â "provisionally rejected". Mae'r testun Cymraeg cyfatebol yn cyfeirio at unrhyw ddatganiad pleidleisio drwy'r post dilys sydd wedi ei farcio â "gwrthodwyd dros dro". Mae ddarpariaethau cyfatebol mewn mannau eraill yn Atodlen 2 yn cyfeirio at ddatganiadau pleidleisio drwy'r post wedi eu marcio yn Gymraeg neu Saesneg **neu'r ddau** yn y testunau Cymraeg a Saesneg. Gofynnir i Lywodraeth Cymru egluro'r anghysondeb hwn.

21. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol



Ym mharagraff 11 o Atodlen 3, mae'r testun Saesneg yn addasu testun Saesneg y cwestiwn yn Nhabl 1 yn rheol 44(4) yn unig, tra bod y testun Cymraeg yn addasu testun Cymraeg y cwestiwn hwnnw yn unig. Fodd bynnag, gan fod y Tabl yn y naill iaith a'r llall yn cynnwys y cwestiwn yn Gymraeg ac yn Saesneg, ymddengys y dylid gwneud yr addasiad yn ddwyieithog yn y testunau Cymraeg a Saesneg.

Mae'r un mater yn ymddangos ym mharagraff 11 o Atodlen 4.

22. Rheol Sefydlog 21.2(vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr y testun Cymraeg a'r testun Saesneg

Ym mharagraff 23(b) o Atodlen 3 mae testun Saesneg paragraff (2)(a) wedi ei addasu yn cyfeirio at "the office of councillor for a county or county borough" tra bod y testun cyfatebol Cymraeg yn cyfeirio at "swyddi cynghorwyr sy'n digwydd dod yn wag mewn cyngor sir neu **gyngor** bwrdeistref sirol".

23. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn yn ddifffgiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol

Mae rheol 13(7) o Atodlen 5 i'r Gorchymyn yn cyfeirio at bersonau a grybwyllir ym mharagraff (1)(a) i (d) o reol 13. Fodd bynnag, nid oes is-baragraffau ym mharagraff (1). Ymddengys y dylai'r cyfeiriad cywir fod at baragraff (2)(a) i (d) ond gofynnir i Lywodraeth Cymru gadarnhau hyn.

24. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol

Mae Rheol 55(1) o Atodlen 5 i'r Gorchymyn yn cyfeirio at y camau y mae'n rhaid i'r swyddog llywyddu eu cymryd cyn gynted ag y bo'n ymarferol "ar ôl i bob pleidleisiwr fwrw ei bleidlais". Mae erthygl 2 yn diffinio "pleidleisiwr", yn rhannol, fel "person sy'n pleidleisio mewn etholiad i'r Senedd". Mae hwn yn ddiffiniad eang sy'n ymddangos fel pe bai'n golygu bod yn rhaid i'r swyddog llywyddu gymryd camau o dan reol 55 ar ôl i bob person sy'n pleidleisio yn yr etholiad bleidleisio, ac nad yw wedi ei gyfyngu i'r orsaf bleidleisio benodol honno. Gofynnir i Lywodraeth Cymru egluro sut mae swyddog llywyddu pob gorsaf bleidleisio i wybod, neu sut mae modd iddo gael gwybod, bod pob person sy'n pleidleisio yn yr etholiad wedi bwrw ei bleidlais.

25. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn yn ddifffgiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol

Mae rheol 66(3)(d) a 67(2)(h) o Atodlen 5 i'r Gorchymyn yn cyfeirio at "gofnodion cofrestru". Mae'r term hwn wedi ei ddiffinio at ddibenion rheolau eraill, ond nid ar gyfer y ddwy reol hyn, felly nid yw'n glir wrth edrych ar y rheolau hyn beth yw ystyr y term.

26. Rheol Sefydlog 21.2(vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr y testun Cymraeg a'r testun Saesneg



Yn Atodlen 5, yn rheol 68(2)(d) a (3)(c), mae gwahaniaeth rhwng y testun Cymraeg a'r testun Saesneg. Yn y testun Saesneg, mae'n nodi, "an order for the inspection or production of the whole or part of its contents". Yn y testun Cymraeg, mynegir "or production" drwy ddweud "neu i'w ddangos" gydag "i'w" yn rhagenw gwrywaidd sy'n achosi treigladau meddal i'r gair "dangos" fel bod yn rhaid iddo fod yn cyfeirio at enw unigol gwrywaidd cynharach. Fodd bynnag, yn y testun Cymraeg mae "rhan" yn yr ymadrodd "neu ran ohono" yn enw benywaidd ac ni fydd yn cael ei gynnwys yn yr ymadrodd "i'w ddangos", sy'n berthnasol i enw gwrywaidd yn unig. Gan hynny, nid yw'r testun Cymraeg yn llwyddo i gyfleu ystyr y frawddeg yn llawn gan y gall llys etholiadol wneud gorchymyn i ddangos naill ai y cyfan neu ran o gynnwys y pecynnau a seliwyd.

27. Rheol Sefydlog 21.2(vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr y testun Cymraeg a'r testun Saesneg

Yn Atodlen 5, yn rheol 75(5), mae gwahaniaeth rhwng y testun Cymraeg a'r testun Saesneg. Yn y testun Saesneg, mae'n cyfeirio at gyfnod o amser, sef "21 days after the day on which..." ond mae'r testun Cymraeg yn dweud "21 o ddiwrnodau ar ôl y dyddiad...". Mewn manau eraill defnyddiwyd gair mwy llythrennol, "diwrnod", wrth ddisgrifio cyfnodau o amser yn nhestun Cymraeg y Gorchymyn.

28. Rheol Sefydlog 21.2(vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr y testun Cymraeg a'r testun Saesneg

Yn Atodlen 5, yn rheol 75(11), yn y geiriau agoriadol cyn is-baragraff (a), ceir gwahaniaeth rhwng y testun Cymraeg a'r testun Saesneg. Mae'r testun Saesneg yn cyfeirio at "under paragraph (4)(b)(i)" ond mae'r testun Cymraeg yn dweud "o dan (4)(b)(i)".

29. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.

Yn Atodlen 9, ym mharagraff 2(1), mae'r dehongliad o reol 2(2) o Reolau Deisebau Etholiad 1960 yn cael ei addasu drwy fewnosod diffiniadau ychwanegol. Fodd bynnag, yn y testun Cymraeg, mae'r diffiniadau newydd i gyd wedi eu mewnosod yn Gymraeg er bod Rheolau Deisebau Etholiad 1960 yn Saesneg yn unig. Gan hynny, ymddengys y dylai'r diffiniadau newydd hyn fod wedi cael eu mewnosod yn Saesneg hefyd gan destun Cymraeg paragraff 2(1) yn Atodlen 9 i'r Gorchymyn o dan y confensiwn arferol (fel sy'n digwydd gydag addasiadau pellach i Reolau 1960 yn Atodlen 9 – gweler, er enghraifft, baragraff 3 o Atodlen 9).

Yn amodol ar ymateb Llywodraeth Cymru i'r pwynt hwn, nodwn y ddau bwynt cysylltiedig a ganlyn sy'n ymwneud â pharagraff 2(1) o Atodlen 9:

- yn y diffiniad o "y Clerk" sydd wedi ei fewnosod fel addasiad i reol 2(2) o Reolau 1960, mae gwahaniaeth rhwng y testun Cymraeg a'r testun Saesneg, gan mai "*Clerk of the Senedd*" yw'r term sy'n cael ei ddiffinio yn y testun Saesneg.



- Defnyddir y diffiniad Saesneg yn yr addasiad a wneir gan baragraff 4(b) o Atodlen 9 ac yn y Templed Deiseb a fewnosodir yn Rheolau 1960 fel addasiad gan baragraff 7 o'r Atodlen honno. Fodd bynnag, "*Clerc y Senedd*" yn hytrach na'r term diffiniedig "y Clerc" a ddefnyddir yn nhestun Cymraeg y Templed Deiseb a fewnosodir gan baragraff 7 o Atodlen 9.
- yn y diffiniad o "*etholiad i'r Senedd*" sydd wedi ei fewnosod fel addasiad i reol 2(2) o Reolau 1960, mae gwahaniaeth rhwng y testun Cymraeg a'r testun Saesneg gan mai "*Senedd Cymru election*" sy'n cael ei ddiffinio yn y testun Saesneg.
 - Defnyddir y diffiniad Saesneg yn y Templed Deiseb a fewnosodir yn Rheolau 1960 fel addasiad gan baragraff 7 o Atodlen 9. Fodd bynnag, "*etholiad Senedd Cymru*" yn hytrach na'r term diffiniedig "*etholiad i'r Senedd*" a ddefnyddir yn nhestun Cymraeg y Templed Deiseb a fewnosodir gan baragraff 7.

30. Rheol Sefydlog 21.2 (vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr y testun Cymraeg a'r testun Saesneg

Yn Atodlen 9, ym mharagraff 7, ym mhennawd y Templed Deiseb newydd, mae gwahaniaeth rhwng y testun Cymraeg a'r testun Saesneg. Yn y testun Saesneg, mae'n nodi "*Senedd Cymru Election Petition Template*" ond yr hyn a geir yn y testun Cymraeg yw "Templed Deiseb Etholiad ar gyfer Etholiad i'r Senedd". Yn hyn o beth, mae'r testun Cymraeg wedi defnyddio'r diffiniad newydd ("deiseb etholiad ar gyfer etholiad i'r Senedd") a fewnosodir fel addasiad yn rheol 2(2) o Reolau 1960 gan baragraff 2(1) o Atodlen 9. Fodd bynnag, nid yw'r testun Saesneg wedi defnyddio'r diffiniad "Senedd election petition" a fewnosodir yn rheol 2(2) o Reolau 1960.

31. Rheol Sefydlog 21.2 (vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr y testun Cymraeg a'r testun Saesneg

Yn Atodlen 10, yn Ffurf 20, ceir gwahaniaeth rhwng pennawd y Ffuriau Saesneg a geir yn fersiynau Cymraeg a Saesneg y Gorchymyn. Yn y fersiwn Saesneg, pennawd y ffurf Saesneg yw "Form of declaration to be made by the companion of a voter **with severe sight impairment or other disability or inability to read**". Ond pennawd y Ffurf Saesneg yn y fersiwn Cymraeg o'r Gorchymyn yw "Form of declaration to be made by the companion of a voter **with disabilities**". Dyma oedd teitl y ffurf yn fersiwn ymgynghori'r Gorchymyn. Mae'r teitl wedi ei ddiwygio a'i ddiweddarau yn y ffurf Saesneg yn nhestun Saesneg y Gorchymyn, ond nid yn y ffurf Saesneg sydd yn y testun Cymraeg.

32. Rheol Sefydlog 21.2 (vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr y testun Cymraeg a'r testun Saesneg

Yn Atodlen 10, yn Ffurf 23, mae gwahaniaeth rhwng y testun Cymraeg a'r testun Saesneg. Yn y testun Saesneg, yn y geiriau mewn llythrennau italig ar ôl "Note", ceir "in accordance **with rule** 75 of Schedule 5". Ond yn nhestun Cymraeg y Ffurf, mae'r geiriau "â rheol" ar goll yn y cyfeiriad fel mai'r hyn a geir yw "yn unol 75 o Atodlen 5".



33. Rheol Sefydlog 21.2 (vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr y testun Cymraeg a'r testun Saesneg

Yn Atodlen 11, ym mharagraff 1(3), mae gwahaniaeth rhwng y testun Cymraeg a'r testun Saesneg. Yn y testun Saesneg, yn y geiriau mewn cromfachau, nodir "(amendments to the National Assembly for Wales (Representation of the People) Order **2007**)". Ond yn y testun Cymraeg mae'r flwyddyn "2007" ar goll o deitl y Gorchymyn a hefyd y gromfach ar y diwedd.

34. Rheol Sefydlog 21.2 (vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr y testun Cymraeg a'r testun Saesneg

Yn Atodlen 11, ym mharagraff 1(4)(b), mae gwahaniaeth rhwng y testun Cymraeg a'r testun Saesneg. Yn y testun Saesneg, yn y diffiniad newydd o "2025 Order" mae'n nodi teitl y Gorchymyn fel "the Senedd Cymru (Representation of the People) Order **2025**". Ond yn y testun Cymraeg, y flwyddyn yn nheitl y Gorchymyn yw "2005" felly mae'n dweud "Gorchymyn Senedd Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) **2005**".

35. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.

Byddem yn ddiolchgar am esboniad ar gyfer y ddau bwynt a ganlyn sy'n ymwneud â pharagraff 5 o Atodlen 11 i'r Gorchymyn:

- ym mharagraff 5(2)(b)(ii), mae'r term "an Assembly election" wedi'i ddiwygio'n destunol fel ei fod yn nodi "a Senedd election" yn rheoliad 2(3) o Reoliadau Etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau (Swyddogaethau Swyddogion Canlyniadau) 2012. Yn ogystal, mae'r un term wedi ei ddiwygio yn rheoliad 2A o Reoliadau 2012 gan baragraff 5(3)(a) a (b) o Atodlen 11. Fodd bynnag, diffinnir y term "Assembly election" ar gyfer rheoliad 2 gan reoliad 2(5) o Reoliadau 2012. Gan hynny, a allai Llywodraeth Cymru esbonio pam nad yw wedi diwygio'r diffiniad o "Assembly election" yn destunol yn rheoliad 2(5) o Reoliadau 2012? Yn ogystal, a ddylai'r termau perthnasol eraill a ddiffinnir yn rheoliad 2(5) megis "Assembly", "Assembly constituency" ac "Assembly electoral region" hefyd fod wedi cael eu diwygio'n destunol i nodi "Senedd" yn rheoliad 2(5) o Reoliadau 2012?
- ym mharagraff 5(3), gwneir diwygiadau i reoliad 2A o Reoliadau 2012. Fodd bynnag, mae gwall hanesyddol posibl yn y diwygiadau blaenorol a wnaed gan OS 2016/300 a fewnosodd reoliad 2(3) i (5) a rheoliad 2A yn Rheoliadau 2012. O ganlyniad i'r diwygiadau hynny, dim ond ar gyfer rheoliad 2 o'r Rheoliadau hynny yr oedd rheoliad 2(5) o Reoliadau 2012 yn diffinio "Assembly", "Assembly election" ac "Assembly constituency". Gan hynny, nid yw'r termau hynny wedi eu diffinio i'w defnyddio yn rheoliad 2A o Reoliadau 2012. Yn dilyn y diwygiadau a wneir gan baragraff 5(3) o Atodlen 11 i'r Gorchymyn hwn, ymddengys y bydd y broblem yn parhau, sef na fydd y termau a geir yn rheoliad 2(5) o Reoliadau 2012 wedi eu diffinio gydag ystyr ar gyfer rheoliad 2A o'r Rheoliadau hynny.



36. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol

Mae Atodlen 12(11) yn dweud ei bod yn dirymu "*Rheoliadau Senedd Cymru (Cyfrifon Swyddogion Canlyniadau) 2021*". Mae'n ymddangos bod hyn yn gamgymeriad gan nad yw'n ymddangos bod offeryn dan y teitl hwn yn bodoli. Nid yw'r rhif OS ar gyfer yr offeryn hwn wedi ei ddarparu mewn troednodyn.

Nodwn fod fersiwn ymgynghori'r Gorchymyn hwn yn dweud i ddechrau ei fod yn dirymu *Rheoliadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cyfrifon Swyddogion Canlyniadau) 2011* (OS 2010/676) o dan Atodlen 12(1). Mae'r Rheoliadau hyn yn dal i fod mewn grym, ond mae eu dirymu wedi ei hepgor o'r Gorchymyn hwn. Nid yw'r rheswm am hyn yn glir. Nid yw'n glir chwaith a yw'r cyfeiriad anghywir at Reoliadau 2021 yn Atodlen 12 yn gysylltiedig â dileu Rheoliadau 2011.

Rhinweddau: craffu

Nodwyd y chwe phwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

37. Rheol Sefydlog 21.3(i) – ei fod yn codi tâl ar Gronfa Gyfunol Cymru neu ei fod yn cynnwys darpariaethau sy'n ei gwneud yn ofynnol i daliadau gael eu gwneud i'r Gronfa honno neu i unrhyw ran o'r llywodraeth neu i unrhyw awdurdod lleol neu gyhoeddus yn gydnabyddiaeth am unrhyw drwydded neu gydsyniad neu am unrhyw wasanaethau sydd i'w rhoi, neu ei fod yn rhagnodi swm unrhyw dâl neu daliad o'r fath

Mae erthygl 23 o'r Gorchymyn yn nodi bod gan swyddog canlyniadau hawl i adennill ei daliadau mewn perthynas â'i dreuliau sy'n ymwneud ag etholiad i'r Senedd. Gall hefyd adennill taliadau ar ran gweinyddwyr etholiadol sydd wedi eu rhestru yn erthygl 23(3). Mae erthygl 23(7) yn nodi bod unrhyw symiau y caniateir eu hadennill i'w codi ar Gronfa Gyfunol Cymru a'u talu allan ohoni. Mae erthygl 23(8) yn nodi ymhellach, pan fo'r cyfraniadau blwydd-daliad y mae'n ofynnol i awdurdod lleol eu talu mewn perthynas ag unrhyw berson yn cael eu cynyddu gan unrhyw ffi a delir o dan erthygl 23 fel rhan o daliadau swyddog canlyniadau mewn etholiad i'r Senedd, yna rhaid codi swm sy'n hafal i'r cynnydd ar Gronfa Gyfunol Cymru a'i dalu allan ohoni i'r awdurdod.

38. Rheol Sefydlog 21.3(i) – ei fod yn codi tâl ar Gronfa Gyfunol Cymru neu ei fod yn cynnwys darpariaethau sy'n ei gwneud yn ofynnol i daliadau gael eu gwneud i'r Gronfa honno neu i unrhyw ran o'r llywodraeth neu i unrhyw awdurdod lleol neu gyhoeddus yn gydnabyddiaeth am unrhyw drwydded neu gydsyniad neu am unrhyw wasanaethau sydd i'w rhoi, neu ei fod yn rhagnodi swm unrhyw dâl neu daliad o'r fath



Mae erthygl 67 o'r Gorchymyn yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru dalu'r darparwr gwasanaeth sy'n darparu gwasanaeth post am ddim ar gyfer cyfathrebiadau etholiadol, ac mae'r symiau sy'n daladwy i'w codi ar Gronfa Gyfunol Cymru.

39. Rheol Sefydlog 21.3(i) – ei fod yn codi tâl ar Gronfa Gyfunol Cymru neu ei fod yn cynnwys darpariaethau sy'n ei gwneud yn ofynnol i daliadau gael eu gwneud i'r Gronfa honno neu i unrhyw ran o'r llywodraeth neu i unrhyw awdurdod lleol neu gyhoeddus yn gydnabyddiaeth am unrhyw drwydded neu gydsyniad neu am unrhyw wasanaethau sydd i'w rhoi, neu ei fod yn rhagnodi swm unrhyw dâl neu daliad o'r fath

Mae erthygl 92 o'r Gorchymyn yn nodi bod yn rhaid talu'r treuliau yr eir iddynt gan farnwyr mewn perthynas â deiseb etholiad ar gyfer etholiad i'r Senedd allan o Gronfa Gyfunol Cymru.

40. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd

Mae gwahanol ddarpariaethau o'r Gorchymyn yn galluogi'r Comisiwn Etholiadol i wneud rheoliadau. Nid yw'r Gorchymyn yn gwneud unrhyw ddarpariaeth ar gyfer gosod rheoliadau o'r fath gerbron y Senedd, nac ar gyfer unrhyw hysbysiad am reoliadau o'r fath i'r Senedd na Gweinidogion Cymru. Nodir y byddai'n rhaid rhoi copi o'r rheoliadau i'r Ysgrifennydd Gwladol o dan baragraff 21 o Atodlen 1 i Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000, ac o dan baragraff 22(4) byddai'n rhaid ei roi i'r cyhoedd hefyd, ond gofynnir i Lywodraeth Cymru esbonio pam nad oes rhaid gosod rheoliadau a wnaed gan y Comisiwn Etholiadol mewn perthynas â Chymru gerbron y Senedd na darparu copi i'r Senedd na Gweinidogion Cymru.

41. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd

Mae paragraff 4(2) o Atodlen 6 i'r Gorchymyn yn nodi bod unrhyw rodd o lai na £500 i'w diystyru fel rhodd sy'n ddarostyngedig i'r rheolau yn Atodlen 6. Nodir bod fersiwn ymgynghori'r Gorchymyn hwn wedi gosod ffigur o £50 at y diben hwn. Gofynnir i Lywodraeth Cymru esbonio beth achosodd y cynnydd sylweddol hwn.

42. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd

Roedd fersiwn ymgynghori'r Gorchymyn hwn yn cynnwys ffurf fanwl (Ffurf 29) yn Atodlen 10 ar gyfer ffurflen treuliau etholiadol ymgeiswyr unigol. Mae'r ffurf hon wedi ei hepgor o'r Gorchymyn. Roedd y ffurf a hepgorwyd yn debyg iawn i Ffurf CW yng Ngorchymyn Cynnal Etholiadau 2007. Mae'r gofyniad i gyflwyno ffurflen treuliau etholiadol yn parhau i fod yn erthygl 54. Mae'r wybodaeth ariannol sy'n ofynnol yn gynhwysfawr, yn fanwl ac yn gymharol gymhleth.



O dan y Gorchymyn hwn, mae gan y Comisiwn Etholiadol bŵer (ond nid dyletswydd) i ragnodi ffurf ar gyfer ffurflen y caniateir ei defnyddio at ddibenion cyflwyno'r ffurflenni angenrheidiol sy'n ofynnol gan ymgeiswyr unigol.

Gofynnir i Lywodraeth Cymru esbonio'r rhesymeg dros ddileu Ffurf 29 a rhoi pŵer i'r Comisiwn Etholiadol ragnodi ffurf, ac a yw'r Comisiwn Etholiadol yn bwriadu rhagnodi ffurf o'r fath mewn pryd ar gyfer etholiadau'r Senedd yn 2026. Yn absenoldeb ffurf ragnodedig, gofynnir i Lywodraeth Cymru a yw'n fodlon y gallai ymgeisydd unigol gyflwyno'r cyfan o'r wybodaeth fanwl sy'n ofynnol o dan erthygl 54 yn hyderus.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â'r holl bwyntiau adrodd, ac eithrio pwyntiau adrodd ar rinweddau 37 i 39 yn gynwysedig.

Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 2 Mehefin 2025 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod.



Ymateb y Llywodraeth: Gorchymyn Senedd Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2025

Pwynt Craffu Technegol 1: Mae Llywodraeth Cymru yn nodi'r pwynt a wnaed ond nid yw'n ystyried bod angen diffinio'r termau hyn ymhellach at ddibenion erthygl 6(5)(c). Mae'r drafftio yn adlewyrchu'r darpariaethau cyfatebol sy'n gymwys mewn perthynas â phleidleisio absennol yn etholiadau Seneddol y DU ac etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru (gweler paragraff 3(5)(b) o Atodlen 4 i Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 2000). Nid yw'r darpariaethau hyn ychwaith yn darparu ar gyfer diffiniad pellach. Ymdrinnir â cheisiadau am bleidleisio absennol ar gyfer pob etholiad (etholiadau a gedwir yn ôl ac etholiadau datganoledig) gyda'i gilydd, ac mae'r swyddogion cofrestru y mae'n ofynnol iddynt gydymffurfio â'r ddyletswydd o dan erthygl 6(5) yn deall y termau hyn yn dda.

Pwyntiau Craffu Technegol 2, 8, 16, 17, 19, 21, 22, a 27 i 34: Mae Llywodraeth Cymru yn ddiolchgar i'r Pwyllgor am nodi'r mân bwyntiau hyn o ran cyfwerthedd rhwng y testunau Cymraeg a Saesneg. Derbynnir y pwyntiau a godwyd a chaiff y cywiriadau a nodir yn y tabl yn yr ymateb hwn eu gwneud cyn gwneud y Gorchymyn.

Pwynt Craffu Technegol 3: Mae Llywodraeth Cymru yn nodi'r pwynt a wnaed. Fodd bynnag, mae'n ystyried bod y darpariaethau'n ddigon clir. Yn y ddau achos byddai'r gair yn dwyn ei ystyr cyffredin, bob dydd. Nodir hefyd bod y gair yn cael ei ddefnyddio yn yr un modd, heb ddiffiniad pellach, yn y darpariaethau cyfatebol sy'n gymwys mewn perthynas ag etholiadau Seneddol y DU ac etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru (gweler adrannau 49(5) a 166(1) o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983).

Pwynt Craffu Technegol 4: Mae Llywodraeth Cymru yn nodi'r pwynt a wnaed. Fodd bynnag, mae'n ystyried bod y darpariaethau'n ddigon clir. Mae'r darpariaethau'n ymwneud â'r gosb a osodir ar berson sydd, wrth bleidleisio, yn cyflawni trosedd y byddai'r person yn atebol am gosb mewn cysylltiad â hi. Dyma gysyniad a ddeallir yn dda, ac mae'n ailadrodd y ddarpariaeth gyfatebol sy'n gymwys mewn perthynas ag etholiadau Seneddol y DU ac etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru (gweler adran 49(5) o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983).

Pwynt Craffu Technegol 5: Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno y dylai'r cyfeiriad hwn fod at "Deddf Pleidiau Gwleidyddol 2000". Mae hyn yn amlwg o'r troednodiadau i'r cyfeiriad, er y derbynnir nad yw'r rhain yn rhan o'r Gorchymyn. Mân wall yw hwn, a chaiff y cywiriadau a nodir yn y tabl yn yr ymateb hwn eu gwneud cyn gwneud y Gorchymyn.

Pwynt Craffu Technegol 6: Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno y byddai'n fwy defnyddiol i'r darlennydd pe bai'r geiriau mewn cromfachau yn nodi, "cadw dogfennau". Fodd bynnag, unig ddiben y geiriau mewn cromfachau yw cynorthwyo'r darlennydd ac nid ydynt yn cael effaith gyfreithiol o sylwedd. Caiff y cywiriadau a nodir yn y tabl yn yr ymateb hwn eu gwneud cyn gwneud y Gorchymyn.

Pwynt Craffu Technegol 7: Nid yw Llywodraeth Cymru yn ystyried bod angen egluro'r geiriau "ffurflen wir" ymhellach. Mae erthygl 54(1) yn ei gwneud yn ofynnol cyflwyno ffurflen treuliau etholiad ar ryw ffurf, ac yn nodi bod rhaid i'r ffurflen hon fod yn ffurflen wir, h.y. rhaid i'w chynnwys fod yn wir. Mae hyn yn ailadrodd y ddarpariaeth gyfatebol sy'n gymwys mewn perthynas ag etholiadau Seneddol y DU ac etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru (gweler adran 81(1) o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983). Mae'r erthygl yn rhagnodi manylion yr hyn y mae rhaid i'r ffurflen ei gynnwys (gweler paragraffau (2) i (4)), felly os nad yw'r Comisiwn Etholiadol yn rhagnodi ffurf, mae digon o fanylion eisoes yn y ddarpariaeth ynghylch yr wybodaeth y byddai angen ei chynnwys mewn unrhyw ffurflen.

Pwynt Craffu Technegol 9: Bwriad erthygl 67 yw y caiff ymgeiswyr a phleidiau anfon cyfathrebiadau etholiadol os dymunant. Nid oes unrhyw elfen orfodol i'r ddarpariaeth hon. Mae paragraff (2) yn egluro y caniateir anfon y cyfathrebiad etholiadol fel cyfathrebiad post, cyn belled â'i fod yn bodloni'r amodau a nodir yn y paragraff hwnnw. Mae Llywodraeth Cymru yn fodlon bod y ddarpariaeth yn gywir fel y'i drafftwyd.

Pwynt Craffu Technegol 10: Mae Llywodraeth Cymru yn nodi'r pwynt a wnaed. Fodd bynnag, nid yw'n ystyried bod angen diffinio'r termau ysgolion cymunedol, ysgolion sefydledig nac ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir. Nodir y gall y termau hyn fod wedi eu diffinio mewn deddfwriaeth arall, ond nodir hefyd nad yw'r termau hyn wedi eu diffinio mewn deddfwriaeth etholiadol gyfatebol (gweler adrannau 95(2)(a) a 96(2)(a) o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983). Hefyd, mae'r cyd-destun y defnyddir y termau ynddo yn golygu y bydd modd eu deall yn rhwydd heb eglurhad pellach, gan mai awdurdodau lleol fydd angen rhoi ystafelloedd mewn ysgolion perthnasol ar gael.

Pwynt Craffu Technegol 11: Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno y byddai iaith niwtral o ran rhywedd yn well yma. Caiff y cywiriad a nodir yn y tabl yn yr ymateb hwn ei wneud cyn gwneud y Gorchymyn.

Pwynt Craffu Technegol 12: Mae Llywodraeth Cymru yn nodi'r pwynt a wnaed. Fodd bynnag, mae'n ystyried bod y ddarpariaeth yn ddigon clir. Dyma gysyniad a ddeallir yn dda, ac mae'r ddarpariaeth yn ailadrodd y ddarpariaeth gyfatebol sy'n gymwys mewn perthynas ag etholiadau Seneddol y DU ac etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru (gweler adran 49(5) o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983). Mae'r ddarpariaeth hon yn rhan o'r gyfundrefn droseddau sy'n gysylltiedig ag etholiadau, ac ystyrir bod unffurfiaeth ym mhob etholiad yn hanfodol mewn cysylltiad â'r gyfundrefn hon.

Pwynt Craffu Technegol 13: Mae Llywodraeth Cymru yn nodi'r pwynt a wnaed. Fodd bynnag, mae'n ystyried bod y ddarpariaeth yn ddigon clir. Mae'r

ddarpariaeth yn ymwneud â'r dystysgrif a ddarperir i'r Llywydd, yn unol ag erthygl 101(3), o benderfyniad y llys etholiadol ynghylch cywirdeb y canlyniad a dilysrwydd yr etholiad. Mae cyfeiriadau at "tystysgrif" yn Rhan 4 yn gyfeiriadau at y dystysgrif hon oni nodir yn wahanol, er enghraifft, yn erthyglau 116, 130 a 131. Dyma gysyniad a ddeallir yn dda, ac mae'n ailadrodd y ddarpariaeth gyfatebol sy'n gymwys mewn perthynas ag etholiadau Seneddol y DU ac etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru (gweler adran 141 o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983).

Pwynt Craffu Technegol 14: Mae Llywodraeth Cymru yn nodi'r pwynt a wnaed. Fodd bynnag, mae'n ystyried bod y ddarpariaeth yn ddigon clir. Mae'r ddarpariaeth yn ymwneud â sefyllfa pan fo'r ddeiseb gerbron yr Uchel Lys yn achos arbennig yn unol ag erthygl 103. Dyma gysyniad a ddeallir yn dda, ac mae'n ailadrodd y ddarpariaeth gyfatebol sy'n gymwys mewn perthynas ag etholiadau Seneddol y DU ac etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru (gweler adran 147 o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983).

Pwynt Craffu Technegol 15: Mae Llywodraeth Cymru yn nodi'r sylw ond nid yw'n ystyried bod angen diffinio'r term ymhellach. Dyma derm cyffredin a ddefnyddir mewn gwahanol ddarnau o ddeddfwriaeth etholiadol (a deddfwriaeth arall) yn y DU (gweler rheoliad 53(2)(h) o Reoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Cymru a Lloegr) 2001/341). Nid yw'r term, hyd yn hyn, wedi ei ddiffinio mewn unrhyw ddeddfwriaeth arall ac nid oes sail awdurdodol ar gyfer diffiniad gan nad yw'n ymddangos bod yr ymarferwyr hyn yn cael eu rheoleiddio yn yr un modd â'r ymarferwyr eraill ar y rhestr.

Mae Llywodraeth Cymru yn fodlon nad yw cynnwys cyfeiriad at yr ymarferwyr hyn yn creu risg i'r system bleidleisio absennol. Ymdrinnir â cheisiadau am bleidleisio absennol ar gyfer pob etholiad (etholiadau a gedwir yn ôl ac etholiadau datganoledig) gyda'i gilydd, a byddai cyflwyno gwahaniaethau i'r system gwneud cais yn debygol o beri mwy o risg i weithrediad y system.

Pwynt Craffu Technegol 18: Mae Llywodraeth Cymru yn ddiolchgar i'r Pwyllgor am nodi'r pwynt gramadegol hwn. Derbynnir y pwynt a godwyd a chaiff y cywiriad a nodir yn y tabl yn yr ymateb hwn ei wneud cyn gwneud y Gorchymyn.

Pwynt Craffu Technegol 20: Mae Llywodraeth Cymru yn nodi'r sylwadau ac yn cytuno y byddai'n well pe bai cysondeb â darpariaethau eraill. Nid yw'r ddarpariaeth fel y'i drafftwyd yn anghywir, ond er mwyn sicrhau cysondeb drwy gydol y Gorchymyn caiff y mân anghysondeb hwn ei gywiro cyn gwneud y Gorchymyn. Mae'r cywiriadau wedi eu nodi yn y tabl yn yr ymateb hwn.

Pwynt Craffu Technegol 23: Mae Llywodraeth Cymru yn ddiolchgar i'r Pwyllgor am nodi'r pwynt croesgyfeirio hwn. Derbynnir y pwynt a godwyd a chaiff y cywiriad a nodir yn y tabl yn yr ymateb hwn ei wneud cyn gwneud y Gorchymyn.

Pwynt Craffu Technegol 24: Mae Llywodraeth Cymru yn nodi'r sylw ond nid yw'n derbyn y byddai'r rheol yn cael ei dehongli yn y modd a awgrymir. Yn hytrach, byddai dehongliad synnwyr cyffredin ar waith fel na fyddai angen i'r swyddog llywyddu ond ystyried yr adeg pan fydd pawb wedi bwrw ei bleidlais yn yr orsaf bleidleisio y mae'n ei llywyddu. Mae'r ddarpariaeth hon yn adlewyrchu geiriad y rheolau etholiadau cyfatebol sy'n gymwys mewn perthynas â phob etholiad llywodraeth leol yng Nghymru (Rheolau Etholiadau Lleol (Prif Ardaloedd) (Cymru) 2021/1459 a Rheolau Etholiadau Lleol (Cymunedau) (Cymru) 2021/1460), felly dyma gysyniad y mae'r personau sy'n gweinyddu'r etholiadau yn ei ddeall yn dda.

Pwynt Craffu Technegol 25: Nid yw Llywodraeth Cymru yn ystyried bod angen diffinio'r term "cofnodion cofrestru" ymhellach yn y naill na'r llall o'r darpariaethau hyn. Y pecynnau o gofnodion cofrestru y cyfeirir atynt yw'r rhai sy'n ofynnol gan reol 55(3)(c), ac mae'r term eisoes wedi ei ddiffinio ar gyfer y rheol honno (gweler rheol 55(9)). Mae hyn yn glir o eiriau agoriadol rheol 66(3), ac nid yw rheol 67 ond yn gymwys pan fo rheol 66 yn gymwys, felly, ni all ond fod yn gymwys i'r pecynnau a gwmpesir gan y rheol honno a rheol 55(3).

Pwynt Craffu Technegol 26: Mae Llywodraeth Cymru yn ddiolchgar i'r Pwyllgor am nodi'r pwyntiau gramadegol hyn. Derbynnir y pwyntiau a godwyd a chaiff y cywiriadau a nodir yn y tabl yn yr ymateb hwn eu gwneud cyn gwneud y Gorchymyn.

Pwynt Craffu Technegol 35: Mae Llywodraeth Cymru yn nodi'r pwyntiau a wnaed. Fodd bynnag, mae diwygiadau yn y Gorchymyn hwn wedi eu cyfyngu i'r rhai sy'n uniongyrchol ganlyniadol ar y Gorchymyn. Caiff y cyfeiriadau yn rheoliad 2(5) o Reoliadau 2012 at Gynulliad Cenedlaethol Cymru etc. eu darllen fel cyfeiriadau at Senedd Cymru yn rhinwedd y glos yn adran 150A o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

Pwynt Craffu Technegol 36: Gwnaed Rheoliadau Senedd Cymru (Cyfrifon Swyddogion Canlyniadau) 2021 o dan erthygl 23(10) o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007 ("Gorchymyn 2007"). Is-ddeddfwriaeth a wnaed ar ffurf heblaw offeryn statudol ydynt. Fel y cyfryw, nid ydynt wedi eu cofrestru ac nid oes rhif O.S. ganddynt i'w ddyfynnu mewn troednodyn. Fodd bynnag, maent yn parhau i fod mewn grym ac mae angen eu dirymu.

Cafodd Rheoliadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cyfrifon Swyddogion Canlyniadau) 2011 (O.S. 2010/676) eu dirymu a'u disodli gan Reoliadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cyfrifon Swyddogion Canlyniadau) (Cymru) 2016, sydd hefyd yn is-ddeddfwriaeth a wnaed ar ffurf heblaw offeryn statudol. Fel y cyfryw, nid oes angen eu cynnwys yn Atodlen 12.

Pwynt Craffu ar Rinweddau 40: Mae Llywodraeth Cymru yn nodi'r pwynt a wnaed. Mae pŵer y Comisiwn Etholiadol i wneud rheoliadau o dan y Gorchymyn wedi ei gyfyngu i achosion sy'n ymwneud â darparu gwybodaeth gan ymgeiswyr unigol o ran eu treuliau etholiad a'u rhoddion. Felly, bydd cymhwysiad

unrhyw reoliadau o'r fath yn gyfyngedig. Mae Llywodraeth Cymru yn fodlon nad oes angen gosod rheoliadau o'r fath gerbron y Senedd na darparu copi i'r Senedd nac i Weinidogion Cymru.

Pwynt Craffu ar Rinweddau 41:

Cyflwynir y cynnydd hwn yn y trothwy adrodd mewn ymateb i system etholiadol newydd y Senedd. O 2026 ymlaen, bydd ymgeiswyr unigol yn sefyll yn erbyn pleidiau gwleidyddol cofrestredig y mae eu trothwyon ar gyfer adrodd ar roddion o dan Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 yn sylweddol uwch. Ar ôl ymgynghori â'r Comisiwn Etholiadol, ac er mwyn sicrhau tegwch, mae'r trothwy ar gyfer adrodd ar roddion i ymgeiswyr unigol wedi ei godi i £500, sef y lefel oddi tani y mae rhoddion i bleidiau'n cael eu diystyru ac felly nid ydynt yn cael eu rheoleiddio.

Pwynt Craffu ar Rinweddau 42:

Ar ôl ymgynghori â'r Comisiwn Etholiadol, nid yw'r Gorchymyn bellach yn rhagnodi'r ffurf. Mae hyn yn adlewyrchu'r sefyllfa sy'n gymwys mewn perthynas ag etholiadau eraill (gweler adran 81 o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983). Bydd hyn gwneud y weithdrefn yn gyson ag etholiadau eraill ac mae'n darparu hyblygrwydd i ganiatáu ar gyfer addasu'r ffurf os oes angen. Bydd y Comisiwn Etholiadol yn rhagnodi ffurf cyn etholiadau'r Senedd 2026. Os nad oes ffurf wedi ei rhagnodi, mae erthygl 54 yn nodi manylion yr hyn y mae rhaid i ffurflen dreuliau ei gynnwys.

Cywiriadau drafftio technegol i'w gwneud cyn i'r Gorchymyn gael ei wneud

CYWIRIADAU A WNEIR I'R TESTUN CYMRAEG CYN GWNEUD	CYWIRIADAU A WNEIR I'R TESTUN SAESNEG CYN GWNEUD
Gorchymyn Senedd Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2025	The Senedd Cymru (Representation of the People) Order 2025
Yn y testun Cymraeg yn unig, yn erthygl 16(6), ychwanegir y gair "bellach" ar ôl "darpariaeth".	
Yn erthygl 35(1)(d), ychwanegir y geiriau "Pleidiau Gwleidyddol" ar ôl "Deddf".	Yn erthygl 35(1)(d), ychwanegir y geiriau "Political Parties" ar ôl "2000".
Yn erthygl 47(9), rhoddir y geiriau "(cadw dogfennau)" yn lle'r geiriau "(dinistrio dogfennau)".	Yn erthygl 47(9), rhoddir y geiriau "(retention of documents)" yn lle'r geiriau "(destruction of documents)".
Yn y testun Cymraeg yn unig, yn erthygl 56(3), ychwanegir y gair "plaid" ar ôl "ei rhestr".	

Yn erthygl 71(3), ychwanegir y gair “plaid” ar ôl “ei rhestr”.	Yn erthygl 71(3), ychwanegir y gair “party” ar ôl “whose”.
	Yn y testun Saesneg yn unig, yn erthygl 72(3), rhoddir “chairperson” yn lle’r gair “chairman”.
Yn erthygl 119(2)(b), ychwanegir y gair “plaid” ar ôl y geiriau “ei rhestr”.	Yn erthygl 119(2)(b), ychwanegir y gair “party” ar ôl “whose”.
Yn y testun Cymraeg yn unig, ym mharagraff 16(1)(a) o Atodlen 2, dilëir y gair “enw”.	
Yn y testun Cymraeg yn unig, ym mharagraff 18(2)(b) o Atodlen 2, ychwanegir y geiriau “neu’r ddau” ar ôl y geiriau ““postal ballot box””.	
Yn y testun Cymraeg yn unig, rhoddir y canlynol yn lle paragraff 23(9)(b) o Atodlen 2; “(b) yn y daliedydd ar gyfer pleidleisiau a wrthodwyd (y weithdrefn wirhau), unrhyw bapur pleidleisio arall, â’r datganiad pleidlais drwy’r post wedi ei farcio â’r geiriau “gwrthodwyd dros dro” neu’r geiriau “provisionally rejected” neu’r ddau ynghlwm wrtho;”	
Ym mharagraff 23(9)(c) o Atodlen 2, rhoddir y geiriau ““gwrthodwyd dros dro” neu’r geiriau “provisionally rejected” neu’r ddau” yn lle’r geiriau ““gwrthodwyd dros dro””	Ym mharagraff 23(9)(c) o Atodlen 2, rhoddir y geiriau ““gwrthodwyd dros dro” or the words “provisionally rejected” or both” yn lle’r geiriau ““provisionally rejected””.
Rhoddir y paragraff a ganlyn yn lle paragraff 11 o Atodlen 3; 11. —(1) Mae cwestiynau 1(b), 2(a) a (b), 3(b) a 4 yng ngholofn (2) o Dabl 1 yn rheol 44(4) i’w darllen fel pe bai’r gair “Senedd” wedi ei fewnosod cyn y gair “election”. (2) Mae cwestiynau 1(b), 2(a) a (b), 3(b) a 4 yng ngholofn (3) o Dabl 1 yn rheol 44(4) i’w darllen fel pe bai’r geiriau “i’r Senedd” wedi eu mewnosod ar ôl y geiriau “yr etholiad hwn”.	Rhoddir y paragraff a ganlyn yn lle paragraff 11 o Atodlen 3; 11. —(1) Questions 1(b), 2(a) and (b), 3(b) and 4 in column (2) of Table 1 in rule 44(4), are to be read as if before the word “election” there is inserted the word “Senedd”. (2) Questions 1(b), 2(a) and (b), 3(b) and 4 in column (3) of Table 1 in rule 44(4), are to be read as if after the words “yr etholiad hwn” there are inserted the words “i’r Senedd”.

	Yn y testun Saesneg yn unig, ym mharagraff 23(b) o Atodlen 3, yn nhestun addasedig paragraff (2)(a) ychwanegir y gair “council” ar ôl y gair “borough”.
Rhoddir y paragraff a ganlyn yn lle paragraff 11 o Atodlen 4; 11. —(1) Mae cwestiynau 1(b), 2(a) a (b), 3(b) a 4 yng ngholofn (2) o Dabl 1 yn rheol 44(4) i’w darllen fel pe bai’r gair “Senedd” wedi ei fewnosod cyn y gair “election”. (2) Mae cwestiynau 1(b), 2(a) a (b), 3(b) a 4 yng ngholofn (3) o Dabl 1 yn rheol 44(4) i’w darllen fel pe bai’r geiriau “i’r Senedd” wedi eu mewnosod ar ôl y geiriau “yr etholiad hwn”.	Rhoddir y paragraff a ganlyn yn lle paragraff 11 o Atodlen 4; 11. —(1) Questions 1(b), 2(a) and (b), 3(b) and 4 in column (2) of Table 1 in rule 44(4), are to be read as if before the word “election” there is inserted the word “Senedd”. (2) Questions 1(b), 2(a) and (b), 3(b) and 4 in column (3) of Table 1 in rule 44(4), are to be read as if after the words “yr etholiad hwn” there are inserted the words “i’r Senedd”.
Yn rheol 13(7) o Atodlen 5, rhoddir y geiriau “mharagraff (2)(a)” yn lle’r geiriau “mharagraff (1)(a)”.	Yn rheol 13(7) o Atodlen 5, rhoddir y geiriau “paragraph (2)(a)” yn lle’r geiriau “paragraph (1)(a)”.
Yn y testun Cymraeg yn unig, yn rheol 68 o Atodlen 5, ym mharagraffau (2)(d) a (3)(c), rhoddir “i ddangos y cynnwys i gyd neu ran ohono” yn lle’r geiriau “i’w ddangos”.	
Yn y testun Cymraeg yn unig, yn rheol 75(5) o Atodlen 5, rhoddir “diwrnod” yn lle’r gair “dyddiad” yr ail dro y mae’n ymddangos.	
Yn y testun Cymraeg yn unig, yn rheol 75(11) o Atodlen 5, ychwanegir y gair “baragraff” o flaen “(4)(b)(i)”.	
Ym mharagraff (2)(1) o Atodlen 9— (i) rhoddir ““Clerk of the Senedd”” yn lle’r geiriau ““y Clerc” (“ <i>Clerk of the Senedd</i>)”; (ii) rhoddir ““Senedd election petition”” yn lle’r geiriau ““deiseb etholiad ar gyfer	Ym mharagraff 2(1) o Atodlen 9, dilëir y geiriau a ganlyn— (i) (“ <i>ymgeisydd</i> ”); (ii) (“ <i>y Clerc</i> ”); (iii) (“ <i>ymgeisydd rhestr plaid</i> ”); (iv) (“ <i>Llywydd y Senedd</i> ”); (v) (“ <i>plaid wleidyddol gofrestredig</i> ”); (vi) (“ <i>etholiad i’r Senedd</i> ”);

(iii) etholiad i'r Senedd" (<i>"Senedd election petition"</i>); rhoddir ""Senedd constituency"" yn lle'r geiriau ""etholaeth Senedd" (<i>"Senedd constituency"</i>); (iv) rhoddir ""Senedd Cymru election"" yn lle'r geiriau ""etholiad i'r Senedd" (<i>"Senedd Cymru election"</i>); (v) rhoddir ""Presiding Officer of the Senedd"" yn lle'r geiriau ""Llywydd y Senedd" (<i>"Presiding Officer of the Senedd"</i>); (vi) rhoddir ""registered political party"" yn lle'r geiriau ""plaid wleidyddol gofrestredig" (<i>"registered political party"</i>); (vii) rhoddir "candidate" yn lle'r geiriau ""ymgeisydd" (<i>"candidate"</i>); (viii) rhoddir ""party list candidate"" yn lle'r geiriau ""ymgeisydd rhestr plaid" (<i>"party list candidate"</i>).	(vii) (<i>"etholaeth Senedd"</i>); (viii) (<i>"deiseb etholiad ar gyfer etholiad i'r Senedd"</i>).
Ym mharagraff 7 o Atodlen 9, yn y pennawd i'r fersiwn testun Cymraeg o'r ddeiseb dempled, ychwanegir y gair "Cymru" ar ôl y gair "Senedd".	Ym mharagraff 7 o Atodlen 9, yn y pennawd i'r fersiwn testun Cymraeg o'r ddeiseb dempled, ychwanegir y gair "Cymru" ar ôl y gair "Senedd".
Yn y testun Cymraeg yn unig, yn Atodlen 10, yn y fersiwn testun Saesneg o ffurflen 20, yn y pennawd i'r ffurflen rhoddir y geiriau "severe sight impairment or other disability or inability to read" yn lle'r gair "disabilities".	
Yn Atodlen 10, yn y fersiwn testun Cymraeg o ffurflen 23 ychwanegir y geiriau "â rheol" ar ôl "yn unol".	Yn Atodlen 10, yn y fersiwn testun Cymraeg o ffurflen 23 ychwanegir y geiriau "â rheol" ar ôl "yn unol".
Yn y testun Cymraeg yn unig, ym mharagraff 1(3) o Atodlen 11, ychwanegir "2007" ar ôl "Bobl".	

Yn y testun Cymraeg yn unig, ym mharagraff 1(4)(b) o Atodlen 11, rhoddir “2025” yn lle “2005”.	
Bydd mân faterion fel fformatio a gwallau teipograffyddol yn cael eu cywiro, a mân newidiadau yn cael eu gwneud i’r nodyn esboniadol a’r troednodiadau, cyn gwneud y Gorchymyn.	



Mike Hedges AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru

12 Mehefin 2025

Annwyl Mike,

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 4 Mehefin yn cyfeirio at y pwyntiau technegol a wnaed gan y Pwyllgor yn ei adroddiad ar Orchymyn Senedd Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2025 (y Gorchymyn Cynnal Etholiadau) a osodwyd gerbron y Senedd ar 8 Mai.

Gweler ynghlwm ymateb Llywodraeth Cymru i'r 39 o bwyntiau adrodd y gofynnwyd iddi ymateb iddynt. Gallaf gadarnhau y byddwn yn gofyn i'r Senedd ystyried y Gorchymyn, fel y'i gosodwyd, ar 8 Gorffennaf ac y bydd y mân gywiriadau a amlinellir yn y tabl ategol i'r ymateb, a fydd yn ymdrin ag unrhyw bwyntiau a dderbynnir, yn cael eu gwneud cyn gwneud y Gorchymyn. Nid wyf o'r farn bod unrhyw un o'r materion a adroddwyd arnynt gan y Pwyllgor yn arwain at faterion sy'n cyfaddawdu uniondeb cyffredinol y Gorchymyn.

Rwy'n ddiolchgar i'r Pwyllgor am ystyried y Gorchymyn yn brydlon.

Yn gywir,

Jayne Bryant AS/MS
Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai
Cabinet Secretary for Housing and Local Government

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Jayne.Bryant@llyw.cymru
Correspondence.Jayne.Bryant@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 29
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Jayne Bryant AS

Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai

4 Mehefin 2025

Annwyl Jayne,

Gorchymyn Senedd Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2025

Yn ein cyfarfod ar 2 Mehefin 2025, trafododd y Pwyllgor Gorchymyn Senedd Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2025 (y Gorchymyn Cynnal Etholiadau). Mae ein hadroddiad arno bellach wedi cael ei osod gerbron y Senedd.

Fel y gwyddoch, mae adroddiad y Pwyllgor yn cynnwys 36 o bwyntiau adrodd technegol: saith yn ymwneud â drafftio diffygiol posibl; 14 yn tynnu sylw at anghysondebau rhwng y testunau Saesneg a Chymraeg; ac un yn nodi'r defnydd o iaith ryw-benodol.

Mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod y Gorchymyn Cynnal Etholiadau'n fawr, tua 400 tudalen yn y naill iaith a'r llall. Serch hynny, mae nifer uchel y diffygion drafftio posibl ac achosion lle nad yw'r testunau Saesneg a Chymraeg yn cyfateb yn destun pryder i ni.

Gwyddom fod y Gorchymyn Cynnal Etholiadau wedi bod ar y gweill gan Llywodraeth Cymru ers peth amser, a'i fod yn destun ymgynghoriad cyhoeddus hir a ddechreuodd ym mis Tachwedd y llynedd.

Rydym wedi gofyn am ymateb ffurfiol i'r pwyntiau penodol a godwyd yn ein hadroddiad, ac rydym yn edrych ymlaen at gael hwnnw maes o law, ond byddem yn croesawu eglurder ar y broses sydd wedi arwain at osod y Gorchymyn Cynnal Etholiadau gerbron y Senedd gyda'r gwallau a'r anghysondebau a nodwyd gennym.

Rydym yn ymwybodol bod Llywodraeth Cymru yn bwriadu ceisio cymeradwyaeth y Senedd ar gyfer y Gorchymyn Cynnal Etholiadau ar 8 Gorffennaf 2025. Gan hynny, byddem hefyd yn croesawu eglurder ynghylch a yw'n dal i fod yn fwriad gennych geisio cymeradwyaeth i'r Gorchymyn Cynnal Etholiadau ar ei ffurf bresennol.



Byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar o gael ymateb brys erbyn 12 Mehefin 2025.

Anfonir copi llythyr hwn at y Gwir Anrhydeddus Eluned Morgan AS, Prif Weinidog Cymru, ac at Julie James AS, Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni.

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink that reads "Mike Hedges". The signature is written in a cursive style and is underlined with a single horizontal stroke.

Mike Hedges

Cadeirydd



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mike Hedges AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru

SeneddDCC@senedd.cymru

09 Mehefin 2025

Annwyl Gadeirydd

Yn dilyn fy llythyr dyddiedig 22 Mai 2025 ac yn unol â'r Cytundeb Rhyngsefydliadol, rwy'n ysgrifennu i dynnu eich sylw at [Ddatganiad Ysgrifenedig Gweinidogol](#) sy'n crynhoi'r trafodaethau yng Nghyngor y Gwledydd a'r Rhanbarthau ac mewn cyfarfodydd rhynglywodraethol eraill ar 23 Mai 2025.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Huw Irranca-Davies AS, y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig; Rebecca Evans AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio; Julie James AS, y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni; y Gwir Anrhydeddus Elin Jones AS, y Llywydd; Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid; a Chadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig.

Dymuniadau gorau

Eluned Morgan

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 32
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

TEITL Cyngor y Cenhedloedd a'r Rhanbarthau – 23 Mai 2025

DYDDIAD 09 Mehefin 2025

GAN Eluned Morgan AS, Prif Weinidog Cymru

Ymunais ag ail gyfarfod Cyngor y Cenhedloedd a'r Rhanbarthau yn Llundain ar 23 Mai 2025, dan gadeiryddiaeth Prif Weinidog y DU. Hefyd yn bresennol oedd Dirprwy Brif Weinidog y DU, Canghellor Dugiaeth Caerhirfryn, Prif Weinidog yr Alban, Prif Weinidog a Dirprwy Brif Weinidog Gogledd Iwerddon, a meiri rhanbarthol o bob cwr o Loegr. Canolbwyntiodd y drafodaeth ar ddatblygiadau ym maes masnach ryngwladol, a chyfleoedd sy'n deillio o ddeallusrwydd artiffisial ar gyfer twf economaidd a gwasanaethau cyhoeddus. Yn ystod y drafodaeth, tynnais sylw at y canllawiau a gyhoeddwyd gan Gyngor Partneriaeth Gweithlu Cymru ar ddefnydd moesegol a chyfrifol o ddeallusrwydd artiffisial ar draws gweithleoedd y sector cyhoeddus, sy'n adlewyrchu ein dull partneriaeth gymdeithasol. Disgwylir i [hysbysiad](#) gael ei gyhoeddi ar wefan Llywodraeth y DU yn y dyfodol agos.

Yn ogystal, ymunais â chyfarfod gyda Phrif Weinidog y DU, Prif Weinidog yr Alban, Prif Weinidog a Dirprwy Brif Weinidog Gogledd Iwerddon a Changhellor Dugiaeth Caerhirfryn. Roedd y cyfarfod hwn yn gyfle pwysig i gyd-drafod datblygiadau byd-eang o bwys, gan gynnwys y sefyllfa yn Rwsia / Wcráin ac Israel / Gaza, a'r cyhoeddiadau diweddar mewn perthynas â masnach y DU gyda'r UE, yr Unol Daleithiau ac India. Croesawais y manteision o ran masnach i Gymru, gan nodi ar yr un pryd bryderon am effaith gweddill tariffau'r Unol Daleithiau, o ystyried cyfran y nwyddau sy'n cael eu hallforio o Gymru i'r wlad. Tynnais sylw at bwysigrwydd trafodaethau cydweithredol rhwng Llywodraeth y DU a'r Llywodraethau Datganoledig er mwyn datblygu cytundebau masnach newydd a manteisio i'r eithaf arnynt. Roedd y drafodaeth hefyd yn ymdrin â phwysigrwydd Adolygiad o Wariant Llywodraeth y DU sydd ar ddod o ran cefnogi gwasanaethau cyhoeddus ac ysgogi twf economaidd. Disgwylir i [hysbysiad](#) ar gyfer y cyfarfod hwn gael ei gyhoeddi ar wefan Llywodraeth y DU cyn bo hir.

Roedd cyfarfod dwyochrog ar wahân gyda Phrif Weinidog y DU hefyd yn fodd o drafod materion allweddol i Gymru cyn Adolygiad o Wariant y DU, yn ogystal â gwaith Llywodraeth y DU sydd ag arwyddocâd a goblygiadau arbennig i Gymru, er enghraifft tanariannu'r rheilffordd a chymorth ar gyfer tâl glo, yn ogystal â'r angen am degwch mewn perthynas â chyllid cyfoeth cyffredin yn y dyfodol. Pwysleisiais hefyd bwysigrwydd ein gwaith ar y cyd i gefnogi dyfodol y sector dur yng Nghymru, a phwysigrwydd bwrw ymlaen ag elfennau

allweddol o'r agenda diwygio cyfansoddiadol yng Nghymru i gefnogi twf economaidd a darparu gwasanaethau cyhoeddus yn effeithiol, gan gynnwys mew'n cysylltiad â fframwaith cyllidol Cymru, Ystad y Goron a datganoli cyfiawnder ieuenctid a'r gwasanaeth prawf.



Ein cyf/Our ref

Mike Hedges AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth,
Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

SeneddLJC@assembly.wales

09 Mehefin 2025

Annwyl Mike,

Ysgrifennaf i roi gwybod i chi fod cyfarfod y Grŵp Rhyngweinidogol ar gysylltiadau rhwng y DU a'r UE wedi'i gynnal ar 12 Mai 2025.

Fe wnaethom drafod ailosod y berthynas rhwng y DU a'r UE . Fel y gwyddoch, cynhaliwyd Uwchgynhadledd rhwng y DU a'r UE ar 19 Mai a chyhoeddodd y DU gychwyn newydd ar y berthynas rhwng y DU a'r UE yn ffurfiol, gyda chyfleodd newydd ar gyfer gwella amddiffyn a diogelwch a ffyniant economaidd pobl a busnesau bob ochr i'r Sianel.

Mae Cytundeb Dealltwriaeth Gyffredin rhwng y DU a'r UE yn cynnwys llawer o'r blaenoriaethau a osodwyd gennym i lywodraeth y DU, ac mae'n darparu'r sylfeini ar gyfer trafodaethau pellach gyda'r UE, a fydd yn cynnig cyfle i ni barhau i weithio gyda'r DU a'r UE i sicrhau bod buddiannau Cymru yn parhau i gael eu hadlewyrchu mewn trafodaethau.

Roedd y cytundeb yn cynnwys ymrwymiad i ddarparu 'Ardal Glanweithdra a Ffytioiechydol Gyffredin' a fydd o fudd i'r sectorau bwyd-amaeth a diod yng Nghymru, yn enwedig wrth werthu cig coch. Bydd gwaith agosach hefyd i gysylltu systemau masnachu allyriadau ac ynni i gefnogi twf gwyrdd a swyddi gwyrdd. Bydd cwtâu dur gwell i'r UE hefyd yn darparu cymorth sydd mawr ei angen ar ein sector dur.

Yn gywir,

Rebecca Evans AS/MS
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio
Cabinet Secretary for Economy, Energy and Planning

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn y Gymraeg. Byddwn yn ateb i ohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn yr un iaith ac ni fydd gohebu yn y Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 35
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.



Eich cyf/Your ref PO/JB/283/2025
Ein cyf/Our ref PO/JB/283/2025

Mike Hedges AS,
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru

SeneddDCC@senedd.cymru

11 Mehefin 2025

Annwyl Mike,

Yn unol â'r cytundeb cysylltiadau rhyngsefydliadol, byddaf yn cynrychioli Llywodraeth Cymru mewn Grŵp Rhyngweinidogol ar Etholiadau a Chofrestru ar 30 Mehefin. Byddaf yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am ein gwaith ar ddiwygio etholiadau, ynghyd â Llywodraeth yr Alban a Llywodraeth y DU.

Bydd y cyfarfod yn cael ei gynnal mewn fformat hybrid ac rwyf wedi cytuno i Gadeirio y tro hwn yn dilyn y cytundeb i gylchdroi trefniadau cadeirio rhwng Gweinidogion. Y mynychwyr eraill fydd Rushanara Ali AS, Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol yn y Weinyddiaeth Dai, Cymunedau a Llywodraeth Leol, Jamie Hepburn ASA, y Gweinidog dros Fusnes Seneddol, Llywodraeth yr Alban a Fleur Anderson AS, Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol, Swyddfa Gogledd Iwerddon.

Byddaf yn ysgrifennu eto ar ôl y cyfarfod gyda diweddariad.

Yn gywir,

Jayne Bryant AS/MS
Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai
Cabinet Secretary for Housing and Local Government

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Jayne.Bryant@llyw.cymru
Correspondence.Jayne.Bryant@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 36
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Huw Irranca-Davies AS/MS
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet
dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig
Deputy First Minister and Cabinet Secretary for
Climate Change and Rural Affairs



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA/HIDCC/1372/25

Mike Hedges AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Andrew RT Davies AS
Cadeirydd
Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig
Senedd Cymru

9 Mehefin 2025

Annwyl Mike, Andrew,

Rwy'n ysgrifennu i hysbysu'r Pwyllgor fy mod wedi rhoi cydsyniad i'r Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig wneud Rheoliadau Marcio Nwyddau Manwerthu 2025, a'u gosod. Mae'r Rheoliadau yn gymwys i Gymru, Lloegr a'r Alban.

Mae'n ddrwg gennyf nad oedd modd imi ysgrifennu at eich pwyllgor i roi hysbysiad o'm bwriad i gydsynio i'r Rheoliadau fel y nodir yn y Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol rhwng Senedd Cymru a Llywodraeth Cymru. Derbyniwyd drafft terfynol y Rheoliadau ddiwedd yr wythnos ddiwethaf wedi trafodaethau rhynglywodraethol.

Mae'r Rheoliadau yn rhoi pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol gyhoeddi hysbysiadau i ofyn am labelu "nid ar gyfer yr UE" ar gynhyrchion bwyd a diod marchnad penodol Prydain Fawr gyda'r gofyniad i ymgynghori â'r llywodraethau datganoledig cyn gwneud penderfyniad.

Rwyf wedi gosod Datganiad Ysgrifenedig sydd i'w weld [yma](#).

Gwnaed y Rheoliadau hyn drwy ddefnyddio pwerau yn:

- Adran 8C(1) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018.

Pwrpas y Rheoliadau yw darparu ar gyfer pŵer wrth gefn i gyflwyno labelu 'Nid ar gyfer yr UE' ar gyfer cynhyrchion bwyd penodol ym Mhrydain Fawr. Byddai'r mesur hwn yn cael ei ddeddfu pan fo'r Ysgrifennydd Gwladol yn fodlon bod cyflenwad rhai nwyddau manwerthu i ddefnyddwyr yng Ngogledd Iwerddon mewn perygl ac yn ystyried bod angen ymyrraeth i ddiogelu'r cyflenwad bwyd i bobl Gogledd Iwerddon.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru
Correspondence.Huw.Irranca-Davies@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn y Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Bwriad y posibilrwydd o gyflwyno labelu 'Nid ar gyfer yr UE' ar gyfer marchnad Prydain Fawr, yw cymell manwerthwyr a gweithgynhyrchwyr i wneud y newidiadau angenrheidiol i gydymffurfio â'r gofynion labelu ar gyfer nwyddau sy'n cael eu symud i Ogledd Iwerddon gan fusnesau o Brydain Fawr. Byddai hyn yn dileu unrhyw gymhellion ariannol ar gyfer dadrestru cynhyrchion yng Ngogledd Iwerddon yn hytrach na'u labelu, a thrwy hynny yn diogelu llif nwyddau i Ogledd Iwerddon.

Byddai'r gofyniad am labelu wedi'i dargedu at gynhyrchion penodol yn hytrach na'r dull cyffredinol yr ymgynghorodd Llywodraeth flaenorol y DU arno ym mis Chwefror 2024. Bydd busnesau bach wedi'u heithrio o'r gofynion hyn.

Er mai egwyddor cyffredinol Llywodraeth Cymru yw gyfraith sy'n ymwneud â materion datganoledig gael ei gwneud a'i diwygio yng Nghymru, ar yr achlysur hwn, er mwyn mabwysiadu dull cyson a chydlynol sy'n caniatáu i Lywodraeth y DU gyflawni ei hymrwymadau i ddiogelu'r cyflenwad o fwyd i Ogledd Iwerddon, y mae Llywodraeth Cymru yn ei gefnogi, rwy'n ystyried ei bod yn briodol cydsynio i osod y Rheoliadau hyn. Rwyf ar ddeall bod Llywodraeth yr Alban hefyd wedi cytuno i gydsynio.

Mae'r Rheoliadau yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol ac fe'u gosodwyd gerbron Senedd y DU ar 5 Mehefin 2025 gyda dyddiad cychwyn a fydd yn amodol ar benderfyniad dau Dŷ Senedd y DU i gymeradwyo'r OS.

Mae'r Rheoliadau i'w gweld [yma](#).

Unwaith eto, mae'n ddrwg gennyf nad oeddwn yn gallu darparu gwybodaeth i'r Pwyllgor cyn i'r Rheoliadau gael eu gosod.

Yn gywir,



Huw Irranca-Davies AS/MS

Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd
a Materion Gwledig

Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

TEITL Rheoliadau Marcio Nwyddau Manwerthu 2025

DYDDIAD 9 Mehefin 2025

GAN Huw Irranca-Davies AS, Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig

Rwy'n ysgrifennu i hysbysu'r Senedd fy mod wedi rhoi cydsyniad i'r Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig wneud Rheoliadau Marcio Nwyddau Manwerthu 2025, a'u gosod. Mae'r Rheoliadau yn gymwys i Gymru, Lloegr a'r Alban.

Gwnaed y Rheoliadau hyn drwy ddefnyddio pwerau yn Adran 8C(1) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018.

Pwrpas y Rheoliadau yw darparu ar gyfer pŵer wrth gefn i gyflwyno labelu 'Nid ar gyfer yr UE' ar gyfer cynhyrchion bwyd penodol ym Mhrydain Fawr. Byddai'r mesur hwn yn cael ei ddeddfu pan fo'r Ysgrifennydd Gwladol yn fodlon bod cyflenwad rhai nwyddau manwerthu i ddefnyddwyr yng Ngogledd Iwerddon mewn perygl ac yn ystyried bod angen ymyrraeth i ddiogelu'r cyflenwad bwyd i bobl Gogledd Iwerddon.

Bwriad y posibilrwydd o gyflwyno labelu 'Nid ar gyfer yr UE' ar gyfer marchnad Prydain Fawr, yw cymell manwerthwyr a gweithgynhyrchwyr i wneud y newidiadau angenrheidiol i gydymffurfio â'r gofynion labelu ar gyfer nwyddau sy'n cael eu symud i Ogledd Iwerddon gan fusnesau o Brydain Fawr. Byddai hyn yn dileu unrhyw gymhellion ariannol ar gyfer dad-restru cynhyrchion yng Ngogledd Iwerddon yn hytrach na'u labelu, a thrwy hynny yn diogelu llif nwyddau i Ogledd Iwerddon.

Byddai'r gofyniad am labelu wedi'i dargedu at gynhyrchion penodol yn hytrach na'r dull cyffredinol yr ymgynghorodd Llywodraeth flaenorol y DU arno ym mis Chwefror 2024. Bydd busnesau bach wedi'u heithrio o'r gofynion hyn.

Mae'r Rheoliadau hyn yn cynnwys darpariaethau, ar gyfer labelu cynhyrchion bwyd, ac yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol ymgynghori â Gweinidogion Cymru a Gweinidogion yr Alban cyn i'r Ysgrifennydd Gwladol benderfynu bod angen labelu, a chyhoeddi hysbysiad i'r perwyl hwnnw. Yn dilyn trafodaethau gydag Ysgrifennydd Gwladol

Gogledd Iwerddon rwyf wedi derbyn sicrwydd ganddo mai dim ond pe bai ymgynghori â'r diwydiant yn methu â gwella'r cyflenwad y byddai'r pwerau yn cael eu gweithredu, fel dewis olaf. Mae hefyd wedi egluro mai dim ond hyd nes y bydd cytundeb iechydol a ffytoiechydol rhwng Llywodraeth y DU a'r Comisiwn Ewropeaidd yn cael ei weithredu, a fydd yn hwyluso llif llyfn bwydydd amaeth a phlanhigion o Brydain Fawr i Ogledd Iwerddon, y bydd y Rheoliadau hyn mewn grym.

Er mai egwyddor gyffredinol Llywodraeth Cymru yw gyfraith sy'n ymwneud â materion datganoledig gael ei gwneud a'i diwygio yng Nghymru, ar yr achlysur hwn, er mwyn mabwysiadu dull cyson a chydlynol sy'n caniatáu i Lywodraeth y DU gyflawni ei hymrwymadau i ddiogelu'r cyflenwad o fwyd i Ogledd Iwerddon, y mae Llywodraeth Cymru yn ei gefnogi, rwy'n ystyried ei bod yn briodol cydsynio i osod y Rheoliadau hyn. Deallaf fod Llywodraeth yr Alban hefyd wedi cydsynio.

Mae'r Rheoliadau yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol ac fe'u gosodwyd gerbron Senedd y DU ar 5 Mehefin 2025 gyda dyddiad cychwyn a fydd yn amodol ar benderfyniad dau Dŷ Senedd y DU i gymeradwyo'r OS.

Mae'r Rheoliadau i'w gweld [yma](#).

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon